

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Mehefin 2021

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

#### **Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*'Allwch chi ddarparu unrhyw wybodaeth sydd gennych chi am gontractau cynnal a chadw Gorsaf MEP a SISS ar gyfer gorsafoedd sy'n cael eu rheoli gan TrC a phan fyddant yn barod i gael eu hadnewyddu.'*

#### **Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Ein darparwr presennol ar gyfer CCTV a Chymorth Cynnal a Chadw Ataliol a Galw Allan CIS ar draws Rhwydwaith Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig yw Gee Communications Limited. Bydd y contract yn dod i ben ar 15 Chwefror 2022. Mae'r strategaeth adnewyddu wrthi'n cael ei thrafod gyda'r adran TG a bydd pob tendr yn y dyfodol yn cael ei gyhoeddi drwy Gwerthwch i Gymru.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

### **Trafnidiaeth Cymru**

#### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".